

## Atodiad 1: Dyddiadur y CDLI Diwygiedig

<b>2017</b>	
20 Medi	Ystyried Adroddiad Monitro Blynyddol y CDLI ac awdurdodiad i ddechrau paratoi Adroddiad Adolygu'r CDLI gan y Cyngor Sir. <a href="http://democratiaeth.sirgar.llyw.cymru/ieListDocuments.aspx?CId=155&amp;MId=934&amp;Ver=4">http://democratiaeth.sirgar.llyw.cymru/ieListDocuments.aspx?CId=155&amp;MId=934&amp;Ver=4</a>
19 Hydref	Trafodwyd Adroddiad Adolygu'r CDLI yn y Pwyllgor Cynllunio. Rhoddodd swyddogion drosolwg o'r broses a oedd i ddod a derbyniwyd cwestiynau.
31 Hydref	Anfonwyd gwahoddiad (drwy e-bost) at Aelodau Panel Ymgynghorol y CDLI i'r Panel Ymgynghorol cyntaf i'w gynnal ddydd lau 9 Tachwedd 2017 am 2pm yn Ystafell Bwyllgor 1, 3 Heol Spilman, Caerfyrddin. Anfonwyd yr agenda a'r papurau ategol gyda'r e-bost.
7 Tachwedd	Anfonwyd adroddiad ar Adroddiad Adolygu'r CDLI, y Cytundeb Cyflawni a'r Fethodoleg Asesu Safleoedd at y Gwasanaethau Democraidd i'w roi ar gylch adrodd y Cyngor.
8 Tachwedd	Cyfarfod â chynrychiolwyr o Is-adran Datblygu Economaidd Llywodraeth Cymru i drafod safleoedd cyflogaeth yn Sir Gaerfyrddin a sut y byddant yn cael eu dwyn ymlaen yn y CDLI Diwygiedig.
9 Tachwedd	Cyfarfod cyntaf Panel Ymgynghorol Adolygu'r CDLI (a oedd yn cynnwys Aelodau Lleol cynrychiolaidd y Cyngor) am 2pm yn Siambr y Cyngor, 3 Heol Spilman, Caerfyrddin. Roedd y cyfarfod yn gyfle i Swyddogion Cynllunio adrodd ar broses baratoi'r CDLI Diwygiedig, ac i'r Panel roi adborth ac argymhellion.
17 Tachwedd	Ail gyfarfod Panel Ymgynghorol Adolygu'r CDLI yn Siambr y Cyngor, 3 Heol Spilman, Caerfyrddin.
27 Rhagfyr	Ystyriwyd Adroddiad Adolygu'r CDLI gan y Bwrdd Gweithredol Rhagarweiniol.
18 Rhagfyr	Ystyriwyd Adroddiad Adolygu'r CDLI gan y Bwrdd Gweithredol. PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ARGYMELL I'R CYNGOR: awdurdodi cychwyn gwaith ar baratoi adolygiad llawn o Gynllun Datblygu Lleol Sir Gaerfyrddin. <a href="http://democratiaeth.sirgar.llyw.cymru/ieListDocuments.aspx?CId=131&amp;MId=1116&amp;Ver=4">http://democratiaeth.sirgar.llyw.cymru/ieListDocuments.aspx?CId=131&amp;MId=1116&amp;Ver=4</a>
18 Rhagfyr	Llythyr wedi'i anfon at ymgynghoreion a phobl ar y rhestr bostio yn rhoi gwybod am baratoi'r CDLI.
<b>2018</b>	
10 Ionawr	Ystyriwyd Adroddiad Adolygu'r CDLI, y Cytundeb Cyflawni Drafft a'r Fethodoleg Asesu Safleoedd Ddrafft gan y Cyngor Sir. <a href="http://democratiaeth.sirgar.llyw.cymru/ieListDocuments.aspx?CId=155&amp;MId=1133&amp;Ver=4">http://democratiaeth.sirgar.llyw.cymru/ieListDocuments.aspx?CId=155&amp;MId=1133&amp;Ver=4</a> PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL fabwysiadu'r argymhellion canlynol gan y Bwrdd Gweithredol: "Awdurdodi cychwyn gwaith ar baratoi adolygiad llawn o Gynllun Datblygu Lleol Sir Gaerfyrddin; Cyhoeddi Adroddiad Adolygu Cynllun Datblygu Lleol Sir Gaerfyrddin; Rhoi awdurdod dirprwyedig i swyddogion wneud addasiadau teipograffyddol neu ffeithiol yn ôl yr angen, i wella eglurder a chywirdeb yr adroddiad." "cymeradwyo Cytundeb Cyflawni Drafft Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig Sir Gaerfyrddin ar gyfer ymgynghoriad ffurfiol o 6 wythnos; Cymeradwyo'r gwaith o ddechrau camau cychwynol proses baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol cyn cytuno ar y Cytundeb Cyflawni terfynol; Cymeradwyo cynnwys y Fethodoleg Asesu Safleoedd Ddrafft;

	Rhoi awdurdod dirprwyedig i swyddogion barhau â thrafodaethau paratoi a gwneud addasiadau teipograffyddol neu ffeithiol, yn ôl yr angen, i wella eglurder a chywirdeb y Cytundeb Cyflawni Drafft a mireinio defnyddioldeb y Fethodoleg Asesu Safleoedd Ddrafft”.
19 Ionawr	Trydydd cyfarfod Panel Ymgynghorol Adolygu'r CDLI yn Siambr y Cyngor, 3 Heol Spilman.
2 Chwefror	Cyflwyniad ynghylch y Cynllun Datblygu Lleol i Grŵp Plaid Cymru yn Neuadd Gymunedol Pontyberem.
2 Chwefror	Llythyr wedi'i anfon at ymgynghoreion ac unigolion ar y rhestr bostio yn rhoi gwybod am wahoddiad ar gyfer Safleoedd Ymgeisiol a chyhoeddi Cytundeb Cyflawni CDLI Diwygiedig
5 Chwefror	Dechrau 'Gwahoddiad i Gyflwyno Safleoedd Ymgeisio'. Rhoddir cyfle i bawb sydd â diddordeb gyflwyno safleoedd yr hoffent iddynt gael eu cynnwys yn y CDLI Diwygiedig.
5 Chwefror	Dechrau'r ymgynghoriad ynghylch Cytundeb Cyflawni Drafft y CDLI Diwygiedig.
21 Chwefror	Cyflwyniad ynghylch y Cynllun Datblygu Lleol i'r Grŵp Llafur yn Neuadd y Sir, Caerfyrddin.
7 Mawrth	Cyflwyniad ynghylch y Cynllun Datblygu Lleol i'r Grŵp Llafur yn Heol Spilman, Caerfyrddin.
8 Mawrth	Cyflwyniad ynghylch y Cynllun Datblygu Lleol i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.
12 Mawrth	Rhannwyd fideo <i>Biteable</i> ar yr ymgynghoriad ynghylch y Cytundeb Cyflawni ar y cyfryngau cymdeithasol.
16 Mawrth	Digwyddiad i asiantiaid cynllunio yn Llyfrgell Caerfyrddin. Rhoddwyd cyflwyniad ynghylch y broses o baratoi'r CDLI Diwygiedig i asiantiaid cynllunio, ac wedyn cafwyd gweithdy a chyfle i ofyn cwestiynau.
19 Mawrth	Cyflwyniad ynghylch y Cynllun Datblygu Lleol i'r Grŵp Annibynnol yn Neuadd y Sir, Caerfyrddin.
20 Mawrth	Rhannwyd fideo <i>Biteable</i> ar yr ymgynghoriad ynghylch safleoedd ymgeisio ar y cyfryngau cymdeithasol.
23 Mawrth	Daeth yr ymgynghoriad ynghylch Cytundeb Cyflawni y CDLI Diwygiedig i ben.
8 Mai	Cyfarfod Panel Ymgynghorol y CDLI rhif 4, Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Caerfyrddin.
16 Mai	Llythyr wedi'i anfon at ymgynghoreion ac unigolion ar y rhestr bostio yn rhoi gwybod am estyniad i'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno Safleoedd Ymgeisiol i 29 Awst 2018.
23 Mai	Cyfarfod cyntaf Fforwm Rhanddeiliad Allweddol y CDLI - Neuadd San Pedr, Caerfyrddin. Y Pwrpas: er mwyn i ystod eang o gyrff a grwpiau sydd â diddordeb yn nyfodol Sir Gaerfyrddin gael cyfle i lunio'r CDLI.
13 Mehefin	Ystyriodd y Cyngor Sir Gytundeb Cyflawni Drafft a Chanllawiau Cynllunio Atodol Drafft - Ynni Gwynt ac Ynni'r Haul - Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig Sir Gaerfyrddin 2018-2033. <a href="#">Agenda Cyngor Sir Dydd Mercher, 13eg Mehefin, 2018, 10.00 yb (llyw.cymru)</a> Rhoddwyd gwybod i'r Cyngor bod y Bwrdd Gweithredol, yn ei gyfarfod ar 30 Ebrill, 2018 (gweler Cofnod 9) wedi ystyried adroddiad ynghylch bod y Cyngor yn ymgynghori ar Ganllawiau Cynllunio Atodol Drafft - Ynni Gwynt ac Ynni'r Haul - Cynllun Datblygu Lleol Cyngor Sir Gaerfyrddin, a baratowyd i ategu ac ymhelaethu ar bolisiau a darpariaethau Cynllun Datblygu Lleol mabwysiedig Sir Gaerfyrddin cyn iddo gael ei fabwysiadu'n ffurfiol, gan adlewyrchu'r ymrwymiad a nodir yn y Cynllun Datblygu Lleol. PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr argymhellion canlynol gan y Bwrdd Gweithredol:

	<p>“cymeradwyo bod y fersiwn ddrafft o'r Canllawiau Cynllunio Atodol a nodir yn yr adroddiad yn destun ymgynghori cyhoeddus ffurfiol am chwe wythnos;</p> <p>Cymeradwyo cyhoeddi'r Canllawiau o ran Effaith Gronnol Tyrbinau Gwynt ar Amwynder Gweledol a Thirwedd a'r Astudiaethau Sensitifrwydd a Chynhwysedd Tirwedd fel dogfennau ategol i'r Canllawiau Cynllunio Atodol a'r CDLI Diwygiedig sydd ar ddod;</p> <p>awdurdodi'r Pennaeth Cynllunio i gywiro gwallau argraffu, gwallau cartograffig neu wallau gramadegol a gwneud diwygiadau er mwyn gwella'r cywirdeb a gwneud yr ystyr yn gliriach.”</p>
13 Mehefin	<p>Ystyriwyd Cytundeb Cyflawni Drafft Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig Sir Gaerfyrddin 2018-2033 gan y Cyngor Sir.</p> <p><a href="http://democratiaeth.sirgar.llyw.cymru/ieListDocuments.aspx?CId=155&amp;MId=1237&amp;Ver=4">http://democratiaeth.sirgar.llyw.cymru/ieListDocuments.aspx?CId=155&amp;MId=1237&amp;Ver=4</a></p> <p>Rhodddwyd gwybod i'r Cyngor bod y Bwrdd Gweithredol, yn ei gyfarfod ar 4 Mehefin, 2018 (gweler Cofnod 20) wedi ystyried adroddiad ar y Cytundeb Cyflawni Drafft a luniwyd mewn ymateb i benderfyniad y Cyngor ar 10 Ionawr, 2018 i ddechrau'n ffurfiol ar y gwaith o baratoi Cynllun Datblygu Lleol diwygiedig (newydd) yn dilyn cyfnod o ymgynghori cyhoeddus a ddaeth i ben ar 23 Mawrth, 2018. Nodwyd, os bydd y Cyngor yn cadarnhau'r Cytundeb Drafft, y byddai angen ei gyflwyno wedyn i Lywodraeth Cymru er mwyn ei gymeradwyo. Yn amodol ar y gymeradwyaeth honno, byddai gan y Cyngor gyfnod o 3.5 mlynedd i weithredu'r Cynllun erbyn y terfyn amser o 2021.</p> <p>PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL fabwysiadu'r argymhellion canlynol gan y Bwrdd Gweithredol:</p> <p>Bod y sylwadau a ddaeth i law a'r argymhellion mewn perthynas â'r Cytundeb Cyflawni Drafft yn cael eu cadarnhau;</p> <p>Bod y newidiadau i'r amserlen yn cael eu cymeradwyo;</p> <p>Cymeradwyo cyflwyno'r Cytundeb Cyflawni (yn cynnwys argymhellion yr adroddiad) i Lywodraeth Cymru gael cytuno arno;</p> <p>Nodi bod y cyfnod ymgynghori ar gyfer cyflwyno safleoedd ymgeisio wedi cael ei ymestyn i 29 Awst 2018”.</p>
22 Mehefin	<p>Arolwg ar-lein ar faterion, gweledigaeth ac amcanion, sef "Dechrau'r Sgwrs", yn ymddangos ar dudalen ymgynghoriadau'r Cyngor. Bydd hwn ar-lein tan 10 Awst 2018.</p>
25 Mehefin	<p>Cyflwyniad i'r Grŵp Annibynnol – diben y digwyddiad oedd creu materion.</p>
28 Mehefin	<p>Anfonwyd Cytundeb Cyflawni Drafft y CDLI Diwygiedig i Lywodraeth Cymru ei gymeradwyo. Cytunodd Llywodraeth Cymru ar y Cytundeb Cyflawni drwy anfon llythyr ffurfiol drwy e-bost ar yr un diwrnod.</p> <p><a href="https://www.sirgar.llyw.cymru/media/1215061/carmarthenshire-da-agreement-letter-replacement-ldp-web-sent-280618-welsh.pdf">https://www.sirgar.llyw.cymru/media/1215061/carmarthenshire-da-agreement-letter-replacement-ldp-web-sent-280618-welsh.pdf</a></p>
5 Gorffennaf	<p>Fforwm Datblygwyr y CDLI yn Neuadd San Pedr, Caerfyrddin. Rhodddwyd cyflwyniad ar y broses o baratoi'r CDLI Diwygiedig i ddatblygwyr, ac wedyn cafwyd gweithdy a chyfle i ofyn cwestiynau.</p>
6 Gorffennaf	<p>Cyhoeddwyd Cytundeb Cyflawni'r CDLI ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin.</p> <p><a href="https://www.sirgar.llyw.cymru/media/1215071/delivery-agreement-agreed-by-welsh-government-cymraeg.pdf">https://www.sirgar.llyw.cymru/media/1215071/delivery-agreement-agreed-by-welsh-government-cymraeg.pdf</a></p>
9 Gorffennaf	<p>Cyflwyniad i Grŵp Plaid Cymru – diben y digwyddiad oedd creu materion.</p>
17 Gorffennaf	<p>Cyfarfod Panel Ymgynghorol y CDLI rhif 5.</p>

30 Gorffennaf	<p>Y Bwrdd Gweithredol - Cyflwynwyd cofnodion y Panel Ymgynghorol ar 9 Tachwedd 2017, 17 Tachwedd 2017 a 19 Ionawr 2018 ynghyd â'r Cylch Gwaith, i'r Bwrdd Gweithredol.</p> <p><a href="http://democratiaeth.sirgar.llyw.cymru/ieListDocuments.aspx?CId=131&amp;MId=1238&amp;Ver=4">http://democratiaeth.sirgar.llyw.cymru/ieListDocuments.aspx?CId=131&amp;MId=1238&amp;Ver=4</a></p> <p>Bu'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried Cylch Gwaith Panel Ymgynghorol Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig Sir Gaerfyrddin (CDLI) 2018-2033 ynghyd â chofnodion cyfarfodydd y Panel ar 9 a 17 Tachwedd 2017 ac ar 19 Ionawr 2018:</p> <p>PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn Cylch Gwaith Panel Ymgynghorol Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig Sir Gaerfyrddin 2018-2033 ynghyd â chofnodion ei gyfarfodydd.</p>
30 Gorffennaf	Seminar i Gynghorau Tref a Chymuned ynghylch y CDLI yn Neuadd Ddinesig Llandeilo.
29 Awst	Dyddiad cau ar gyfer 'Gwahoddiad i Gyflwyno Safleoedd Ymgeisio'.
13 Medi	Fforwm Rhanddeiliaid Allweddol 2 yn Neuadd San Pedr, Caerfyrddin.
20 Medi	Ail gyfarfod y Fforwm Datblygwyr, Neuadd San Pedr, Caerfyrddin.
21 Medi	Y Pwyllgor Craffu - Cymunedau.
1 Hydref	Cyfarfod Panel Ymgynghorol y CDLI rhif 6.
26 Hydref	Cyfarfod Panel Ymgynghorol y CDLI rhif 7.
12 Rhagfyr	Mae ymgynghoriad yn dechrau ar Strategaeth a Ffeirir y CDLI Diwygiedig, yr Asesiad Cynaliadwyedd, yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd, yr Adroddiad Adolygu, y Gofrestr o Safleoedd Ymgeisio a'r Gwahoddiad ar gyfer Safleoedd Tywod a Graean. Llythyr wedi'i anfon at ymgynghoreion a phobl ar y rhestr bostio yn rhoi gwybod am yr ymgynghoriad.
<b>2019</b>	
9 Ionawr	Gwahoddwyd Cynghorwyr Sir i sesiynau galw heibio i Aelodau Lleol i drafod y CDLI diwygiedig arfaethedig mewn perthynas â'u wardiau. Trefnwyd cyfarfodydd unigol hefyd ar gyfer yr Aelodau hynny nad oeddent yn gallu bod yn bresennol ar 9 Ionawr.
28 Ionawr	Llythyr a anfonwyd at ymgynghoreion a phobl ar y rhestr bostio yn rhoi gwybod am Alwad am Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr
8 Chwefror	Mae dyddiad cau ymgynghoriad ar Hoff Strategaeth, SA, HRA, Adroddiad Adolygu, Cofrestr Safle Ymgeiswyr, a Gwahoddiad ar gyfer Safleoedd Tywod a Graean.
8 Ebrill	Dyddiad cau ar gyfer yr Alwad am Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr
23 Ebrill	Cyfarfod â chynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru yng Nghaerfyrddin i drafod sylwadau Llywodraeth Cymru o ran Strategaeth a Ffeirir y CDLI Diwygiedig a materion perthnasol eraill.
24 Ebrill	Cyfarfod Panel Ymgynghorol y CDLI rhif 8.
15 Mai	<p>Ystyriodd y Cyngor Sir argymhellion y Bwrdd Gweithredol o ran y Fersiwn Ddrafft o Strategaeth Cyn-Adneuo a Ffeirir Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig Sir Gaerfyrddin 2018-2033.</p> <p><a href="http://democratiaeth.sirgar.llyw.cymru/ieListDocuments.aspx?CId=155&amp;MId=2922&amp;Ver=4">http://democratiaeth.sirgar.llyw.cymru/ieListDocuments.aspx?CId=155&amp;MId=2922&amp;Ver=4</a></p> <p>PENDERFYNWYD mabwysiadu'r argymhellion canlynol gan y Bwrdd Gweithredol:</p> <p>10.1 bod y sylwadau a ddaeth i law o ran y Fersiwn Ddrafft o'r Strategaeth Cyn-adneuo a Ffeirir yn cael eu nodi a bod yr argymhellion yn cael eu cadarnhau;</p> <p>10.2 bod y sylwadau ddaeth i law o ran yr Arfarniad Cynaliadwyedd/Adroddiad Cychwynnol yr Asesiad Amgylcheddol Strategol, Adroddiad Sgrinio'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ac</p>

	<p>Adroddiad Adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol yn cael eu nodi a'r argymhellion yn cael eu cadarnhau</p> <p>10.3 rhoi awdurdod dirprwyedig i swyddogion gyflawni'r canlynol:-</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• newid y Strategaeth a Ffeirir yng ngoleuni'r argymhellion sy'n deillio o'r prosesau uchod a'r dystiolaeth sy'n rhan o baratoi'r Fersiwn Adneuol o'r Cynllun Datblygu Lleol;</li> <li>• gwneud addasiadau teipograffyddol neu ffeithiol ansylweddol yn ôl yr angen, i wella eglurder a chywirdeb y Cytundeb Cyflawni.'</li> </ul>
4 Gorffennaf	Rhodddwyd cyflwyniad ynghylch y CDLI Diwygiedig i'r Grŵp Annibynnol.
11 Medi	Rhodddwyd cyflwyniad ynghylch y CDLI Diwygiedig i'r Grŵp Llafur.
17 Medi	Rhodddwyd cyflwyniad ynghylch y CDLI Diwygiedig i'r Grŵp Annibynnol.
24 Medi	Cyfarfod Panel Ymgynghorol y CDLI rhif 9.
10 a 18 Hydref	Gwahodddwyd Cynghorwyr Sir i sesiynau galw heibio i Aelodau Lleol i weld mapiau o aneddiadau'r CDLI diwygiedig arfaethedig ar gyfer eu wardiau. Trefnwyd cyfarfodydd unigol hefyd ar gyfer yr Aelodau hynny nad oeddent yn gallu bod yn bresennol ar 10 neu 18.
13 Tachwedd	<p>Ystyriodd y Cyngor Sir argymhellion y Bwrdd Gweithredol o ran y fersiwn Adneuol Drafft o Gynllun Datblygu Lleol Diwygiedig Sir Gaerfyrddin 2018-2033.</p> <p><a href="http://democratiaeth.sirgar.llyw.cymru/ieListDocuments.aspx?CId=155&amp;MId=2010&amp;Ver=4">http://democratiaeth.sirgar.llyw.cymru/ieListDocuments.aspx?CId=155&amp;MId=2010&amp;Ver=4</a></p> <p>PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr argymhellion canlynol gan y Bwrdd Gweithredol:-</p> <p>“ystyried a chymeradwyo cynnwys y Fersiwn Adneuol Drafft o Gynllun Datblygu Lleol Diwygiedig 2018-2033 (a dogfennau atodol) at ddibenion ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol;</p> <p>Rhoi awdurdod dirprwyedig i swyddogion wneud addasiadau teipograffyddol, cartograffig a/neu ffeithiol ansylweddol yn ôl yr angen, i wella eglurder a chywirdeb y Fersiwn Drafft o'r Strategaeth a Ffeirir;</p> <p>Cymeradwyo'r Fersiwn Drafft o'r Canllawiau Cynllunio Atodol ynghylch Moryd Byrri ac Ardal Cadwraeth Arbennig Caeau Mynydd Mawr at ddibenion ymgynghori yr un pryd â'r CDLI Adneuo.”</p>
<b>2020</b>	
29 Ionawr	<p>Dechrau cyfnod ymgynghori'r CDLI Diwygiedig Adneuo Cyntaf. Y dyddiad gorffen cychwynnol i'r ymgynghoriad oedd 4:30pm ar 13 Mawrth , ond cafodd hyn ei ymestyn i 27 Mawrth.</p> <p>Fel rhan o'r ymgynghoriad cafodd cyfres o sesiynau galw heibio eu cynnal ar hyd a lled Sir Gaerfyrddin.</p> <p>Roedd y digwyddiadau'n gyfle i grwpiau, sefydliadau, partïon â diddordeb ac aelodau'r cyhoedd drafod a dysgu mwy am y CDLI gan y Swyddogion o'r Adain Blaen-Gynllunio a oedd yn bresennol.</p> <p>Cynhaliwyd y digwyddiadau yn y saith lleoliad a restrir isod. Roedd 2 sesiwn ym mhob lleoliad. Roedd Sesiwn 1 rhwng <b>10am a 1pm</b> ac roedd Sesiwn 2 rhwng <b>2pm a 7pm</b>.</p> <p><b><u>Lleoliadau:</u></b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• 3 Chwefror: Canolfan Gymunedol Llangadog, Heol Dyrfal, Llangadog</li> <li>• 5 Chwefror: Neuadd y Dref Llanelli, Sgwâr Neuadd y Dref, Llanelli</li> <li>• 6 Chwefror: Neuadd Goffa Pontyberem, Heol Coalbrook, Pontyberem</li> <li>• 10 Chwefror: Clwb Bowlio Dan Do Dinefwr, Manor Road, Rhydaman</li> </ul>

	<ul style="list-style-type: none"> <li>• 11 Chwefror: Ystafell Gyfarfod Dewi, The Gate, Heol y Pentre, Sanclêr</li> <li>• 12 Chwefror: Festri Capel Aberduar, Heol Bro Einon, Llanybydder</li> <li>• 13 Chwefror: Ystafell Gyfarfod 2, Llyfrgell Caerfyrddin, 9 Stryd San Pedr, Caerfyrddin</li> </ul> <p>Llythyr wedi'i anfon at ymgynghoreion a phobl ar y rhestr bostio yn rhoi gwybod am yr ymgynghoriad.</p>
14 Chwefror	Llythyr wedi'i anfon at ymgynghoreion a phobl ar y rhestr bostio yn rhoi gwybod am estyniad i'r cyfnod ymgynghori ar gyfer y CDLI Adnau.
24 Mawrth	Dechrau cyfnod clo cenedlaethol o ganlyniad i bandemig Covid-19.
27 Mawrth	Cau'r cyfnod ymgynghori'r CDLI Diwygiedig Adneuo.
28 Gorfennaf	Cyfarfod rhithwir: Panel Cyngori CDLI - cyfarfod rhif 10.
11 Medi - 2 Hydref	Ymgynghori am 3 wythnos ychwanegol ar y CDLI Diwygiedig Adneuo. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad ychwanegol hwn oherwydd yr aflonyddwch a achoswyd gan bandemig Covid-19 ar wythnosau olaf yr ymgynghoriad cychwynol ar y CDLI Diwygiedig Adneuo (a ddaeth i ben ddydd Gwener 27ain Mawrth 2020). Yn hyn o beth, cydnabu'r Cyngor yr effaith a gafodd y cyfnod clo ar yr ymgynghoriad a gallu'r cyhoedd i gyfrannu a chyflwyno sylwadau effeithiol cyn y dyddiad cau. Llythyr wedi'i anfon at ymgynghoreion a phobl ar y rhestr bostio yn rhoi gwybod am yr ymgynghoriad.
22 Hydref	Y Cyngor yn cymeradwyo adolygu'r Cytundeb Cyflawni, gan gynnwys ychwanegiad o 6/7 mis i amserlen y CDLI o ganlyniad i bandemig Covid-19.
10 Tachwedd	Llywodraeth Cymru yn cymeradwyo adolygu Cytundeb Cyflawni'r CDLI Diwygiedig.
12 Tachwedd	Adrodd Sylwadau Adneuo i Bwrdd Rheoli Corfforaethol.
30 Tachwedd	Adrodd Sylwadau Adneuo i'r Bwrdd Gweithredol Rhagarweiniol.
17 Rhagfyr	Adrodd Sylwadau Adneuo i'r Pwyllgor Craffu Cymunedol ac Adfywio.
21 Rhagfyr	Adrodd Sylwadau Adneuo i'r Bwrdd Gweithredol.
<b>2021</b>	
5 Ionawr	Cyfarfod rhithwir: Cyfarfod Panel Cyngori CDLI rhif 11.
13 Ionawr	<p>Rhoi gwybod am Sylwadau Adneuo a Dderbyniwyd a Newidiadau â Ffocws i'r Cyngor Sir: <a href="#">Agenda for Cyngor Sir on Dydd Mercher, 13eg Ionawr, 2021, 10.00 yb (llyw.cymru)</a></p> <p>PENDERFYNWYD derbyn yr argymhelliad canlynol gan y Bwrdd Gweithredol:-</p> <p>7.4.1 cymeradwyo argymhellion y swyddog ar yr ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad ynghylch y CDLI Diwygiedig Adneuo, yr Arfarniad Cynaliadwyedd, yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd a'r Canllawiau Cynllunio Atodol;</p>

	<p>7.4.2 cytuno i gyflwyno'r rhestr o Newidiadau â Ffocws i'r Bwrdd Gweithredol i'w cymeradwyo ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus a fydd para o leiaf 6 wythnos;</p> <p>7.4.3 cymeradwyo cyflwyno'r CDLI Adneuo a'i ddogfennau ategol, tystiolaeth a dogfennau cefndir fel sy'n ofynnol i Weinidogion Llywodraeth Cymru i'w harchwilio;</p> <p>7.4.4 rhoi awdurdod dirprwyedig i swyddogion ymateb i argymhellion a cheisiadau sy'n codi gan yr Arolygydd fel rhan o'r Archwiliad a'r sesiynau gwrandawriad;</p> <p>7.4.5 penderfynu mabwysiadu'r Canllawiau Cynllunio Atodol mewn perthynas ag ACA Caeau'r Mynydd Mawr a Chilfach Tywyn (yn amodol ar ganlyniad yr Archwiliad) ar yr un pryd â mabwysiadu'r CDLI Diwygiedig;</p> <p>7.4.6 rhoi awdurdod dirprwyedig i swyddogion wneud addasiadau teipograffyddol, cartograffig a/neu ffeithiol ansylweddol i wella eglurder a chywirdeb y Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig a'i ddogfennau ategol”.</p>
21 Ionawr	Cyhoeddi canllawiau gan Gyfoeth Naturiol Cymru (CNC) ar lefelau ffosffad yn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) Afonol
Ionawr	Proses LDP Diwygiedig ar stop oherwydd mater lefelau ffosffad yn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) Afonol
Mehefin	Llythyr wedi'i anfon at ymgynghoreion a phobl ar y rhestr bostio yn rhoi gwybod am ddiweddariad i broses y CDLI.
17 Tachwedd	Cyfarfod anffurfiol o'r Cabinet – diweddariad ar broses y CDLI Diwygiedig sydd ar stopa sut mae'r mater ffosffadau'n cael ei ddatrys, wedi ei ddarparu gan y Rheolwr Blaen-gynllunio.
16 Rhagfyr	Cyflwynwyd adroddiad sy'n rhoi diweddariad ar y CDLI diwygiedig yn Sir Gaerfyrddin - y Camau Nesaf a'r Cytundeb Cyflawni Diwygiedig i'r Tîm Rheoli Corfforaethol (CMT).
<b>2022</b>	
7 Chwefror	Cafodd yr adroddiad sy'n rhoi diweddariad ynghylch CDLI diwygiedig Sir Gâr - y Camau Nesaf a Chytundeb Cyflawni Diwygiedig ei gymeradwyo yn y cyfarfod Cyn-Gabinet.
14 Chwefror	Cafodd yr adroddiad sy'n rhoi diweddariad ar y CDLI diwygiedig yn Sir Gaerfyrddin - y Camau Nesaf a Chytundeb Cyflawni Diwygiedig ei gymeradwyo yng nghyfarfod y Cabinet.
9 Mawrth	<p>Cafodd yr adroddiad sy'n rhoi diweddariad ar y CDLI diwygiedig Sir Gâr - y Camau Nesaf a Chytundeb Cyflawni Diwygiedig ei gymeradwyo yng nghyfarfod y Cyngor Sir:</p> <p><a href="#">Agenda for Cyngor Sir on Dydd Mercher, 9fed Mawrth, 2022, 10.00 yb (llyw.cymru)</a></p> <p>PENDERFYNWYD mabwysiadu'r argymhellion canlynol gan y Cabinet:-</p> <p>“9.1 Rhoi awdurdod dirprwyedig i swyddogion ddiwygio amserlen y Cytundeb Cyflawni Diwygiedig a chytuno ar ei gynnwys gyda Llywodraeth Cymru;</p> <p>9.2 Ystyried cynnwys yr adroddiad a chymeradwyo'r angen i baratoi ail Gynllun Datblygu Lleol Diwygiedig Adneuo cyfunol a dogfennau cysylltiedig;</p> <p>9.3 Rhoi awdurdod dirprwyedig i Gyfarwyddwr yr Amgylchedd ar y cyd â'r Aelod Cabinet dros Gynllunio sefydlu Bwrdd Rheoli Maetholion Afon Tywi, datblygu ei gylch gwaith a pharatoi Cynllun Rheoli Maetholion;</p> <p>9.4 Ar y cyd â chyrrff cyhoeddus allweddol eraill, ymuno â'r bwrdd aelodaeth ar gyfer Bwrdd Rheoli Maetholion Afon Teifi, Afon Cleddau ac Afon Gwy”</p>
Mehefin	Llythyr wedi'i anfon at ymgynghoreion ac unigolion ar y rhestr bostio yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf yn yr ystyr y bydd amserlen CDLI ddiwygiedig yn cael ei chynhyrchu a bod Ail CDLI i'w archwilio gan y cyhoedd yn cael ei baratoi ar hyn o bryd.
25 Awst	Cymeradwywyd y Cytundeb Cyflawni Diwygiedig gan Lywodraeth Cymru.

19 Hydref	Cyfarfod Panel Cyngori CDLI rhif 12.
20 Hydref	CDLI Diwygiedig Sir Gaerfyrddin – Ail Adneuo Drafft a gytunwyd gan Dîm Rheoli Corfforaethol y Cyngor (CMT).
14 Tachwedd	CDLI Diwygiedig Sir Gâr - Ail Adneuo Drafft a gytunwyd gan y Cabinet.
30 Tachwedd	Cyfarfod Panel Cyngori CDLI 13.
7 Rhagfyr	<p>CDLI Diwygiedig Sir Gaerfyrddin - Ail Adneuo Drafft a gytunwyd gan y Cyngor Sir: <a href="#">Agenda for Cyngor Sir on Dydd Mercher, 7fed Rhagfyr, 2022, 10.00 yb (llyw.cymru)</a></p> <p>PENDERFYNWYD mabwysiadu'r argymhellion canlynol gan y Cabinet:</p> <p>6.1 Cymeradwyo cynnwys yr ail Fersiwn Adneuo Drafft o Gynllun Datblygu Lleol Diwygiedig 2018 - 2033 (a dogfennau atodol) at ddibenion ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol.</p> <p>6.2 Rhoi cymeradwyaeth i gyflwyno'r Fersiwn Drafft o'r Canllawiau Cynllunio Atodol ynghylch Cilfach Byrri ac Ardal Cadwraeth Arbennig Caeau Mynydd Mawr i'w fabwysiadu yr un pryd â'r CDLI Diwygiedig.</p> <p>6.3 Nodi'r Nodyn Briffio Drafft ar yr Adroddiad Twf Economaidd a Thai sy'n cael ei lunio a chytuno ar yr Opsiwn Twf diwygiedig a argymhellir.</p> <p>6.4 Rhoi awdurdod dirprwyedig i swyddogion wneud unrhyw addasiadau teipograffyddol neu ffeithiol yn ôl yr angen, i wella eglurder o ran ystyr.</p>
<b>2023</b>	
17 Chwefror	<p>Dechrau cyfnod ymgynghori'r Ail CDLI Diwygiedig Adneuo.</p> <p>Fel rhan o'r ymgynghoriad cafodd cyfres o sesiynau galw heibio eu cynnal ar hyd a lled Sir Gaerfyrddin.</p> <p>Roedd y digwyddiadau'n gyfle i grwpiau, sefydliadau, partïon â diddordeb ac aelodau'r cyhoedd drafod a dysgu mwy am y CDLI gan y Swyddogion o'r Adain Blaen-Gynllunio a oedd yn bresennol.</p> <p>Cynhaliwyd y digwyddiadau yn y saith lleoliad a restrir isod.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• 27 Chwefror: Llyfrgell Newydd, Rhydaman (10.00 – 19.00)</li> <li>• 28 Chwefror: Canolfan Hamdden Castell Newydd Emlyn (12.00 – 19.00)</li> <li>• 1 Mawrth: Ystafell Bwyllgor, Neuadd Goffa Pontyberem, Heol Coalbrook, Pontyberem (12.00 – 19.00)</li> <li>• 6 Mawrth: Hwb, Rhodfa'r Santes Catrin, Caerfyrddin (10.00 – 19.00)</li> <li>• 7 Mawrth: Y Gât, Heol Y Pentref, Sanclêr (12.00 – 19.00)</li> <li>• 7 Mawrth: Neuadd Gymunedol Llangadog, Heol Dyrfal, Llangadog (12.00 – 19.00)</li> <li>• 8 Mawrth: Neuadd y Dref, Sgwâr Neuadd y Dref, Llanelli (10.00 – 19.00)</li> </ul> <p>Llythyr wedi'i anfon at ymgynghoreion a phobl ar y rhestr bostio yn rhoi gwybod am yr ymgynghoriad.</p>
14 Ebrill	Cau'r cyfnod ymgynghori'r Ail CDLI Diwygiedig Adneuo.
12 Medi	Gweithdy Rhanddeiliaid Hyfywedd Cynghorau Sir Caerfyrddin a Phenfro ar y Cyd.
Ebrill - Ionawr	Ystyried sylwadau a dderbyniwyd ar yr Ail CDLI Diwygiedig i'w Archwilio gan y Cyhoedd; Cwblhau'r sylfaen dystiolaeth i gyd-fynd â'r CDLI Diwygiedig cyn cyflwyno'r Cynllun i Lywodraeth Cymru.



**2024**

2 Ionawr	<p>Cymeradwywyd y Cytundeb Cyflawni Diwygiedig gan Lywodraeth Cymru <a href="#">Eich cyf (llyw.cymru)</a></p> <p>Llythyr wedi'i anfon at ymgynghoreion ac unigolion ar y rhestr bostio yn rhoi gwybod am yr ymgynghoriad ar y Cytundeb Cyflawni wedi'i ddiweddarau a Newidiadau â Ffocws o'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig a'r Asesiad Rheoleiddio Cynefinoedd.</p>
19 Chwefror	<p>Mae'r ymgynghoriad yn dechrau ar Newidiadau Ffocws i'r Arfarniad o Gynaliadwyedd Integredig a'r Asesiad Rheoleiddio Cynefinoedd tan 3/4/24.</p> <p>Llythyr wedi'i anfon at ymgynghoreion a phobl ar y rhestr bostio yn rhoi gwybod am yr ymgynghoriad.</p>
Mai	<p>Cyflwyno CDLI a dogfennau cysylltiedig i Lywodraeth Cymru.</p>